

Glawcoma

Glawcoma: y gofal y dylech ei ddisgwyl

Mae glawcoma yn gyflwr sy'n effeithio ar olwg, ac mae'n digwydd amlaf ymhlith pobl yn eu 70au neu'n hŷn. Mae'n dueddol o waethygu dros sawl blwyddyn. Caiff ei achosi'n aml gan bwysedd uchel yn y llygad, a gellir ei ganfod yn ystod profion llygaid rheolaidd. Am fod glawcoma yn gallu achosi i rywun gollu ei olwg yn barhaol mae angen ei ganfod a'i drin cyn gynted â phosibl. Mae tua 1 o bob 10 o bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall wedi colli eu golwg oherwydd glawcoma, ond dim ond cyfran fach o bobl â glawcoma sy'n colli eu golwg yn gyfan gwbl. Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â glawcoma drwy sicrhau'r canlynol:

- gwneir profion mwy cywir cyn anfon pobl i glinig neu ysbyty llygaid
- caiff pobl y mae angen gofal arbenigol arnynt eu gweld yn gyflymach, fel eu bod yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir
- gall optegydd lleol ofalu am y bobl hynny sydd â phroblemau llai difrifol, gan ei gwneud yn haws iddynt a rhyddhau amser ar gyfer gwasanaethau ysbytai
- nad yw pobl yn cael triniaeth nad oes ei hangen arnynt.

Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal llygaid proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaeth?
- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r driniaeth sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?

- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal llygaid proffesiynol.

Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae gan [NHS Choices](#) ragor o wybodaeth am glawcoma.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- [Y Gymdeithas Glawcoma Ryngwladol](#), 01233 64 8170
- [Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion](#) (RNIB), 0303 123 9999
- [Look After Your Eyes](#)

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae glawcoma wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-2714-2